## ATODLEN 3

Erthygl 2

## DANGOSYDDION ADDYSG

| Rhif y Dangosydd/ Indicator Number | Dangosydd | Indicator |
|---|---|---|
| **DP 14/ PI 14** | Canran y disgyblion a asesir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd, fel y'i penderfynir gan Asesiadau Athrawon. | The percentage of pupils assessed at the end of Key Stage 2, in schools maintained by the local authority, achieving the Core Subject Indicator, as determined by Teacher Assessment. |
| **DP 15/ PI 15** | Canran y disgyblion a asesir, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athro yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. | The percentage of pupils assessed, in schools maintained by the local authority, receiving a Teacher Assessment in Welsh (first language) at the end of Key Stage 3. |
| **DP 16/ PI 16** | Canran y disgyblion 15 oed ar yr 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A*-C yn y Gymraeg fel iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg. | The percentage of pupils aged 15 at the preceding 31 August, in schools maintained by the local authority who achieved the Level 2 threshold including a GCSE grade A*-C in English or Welsh first language and mathematics. |
| **DP 17/ PI 17** | Canran:<br>(a) yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); a<br>(b) y disgyblion sydd yng ngofal awdurdod lleol,<br>sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar yr 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd. | The percentage of:<br>(a) all pupils (including those in local authority care); and<br>(b) pupils in local authority care,<br>in any local authority maintained school, aged 15 at the preceding 31 August who leave compulsory education, training or work-based learning without an approved external qualification. |
| **DP 18/ PI 18** | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar yr 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. | The average point score for pupils aged 15 at the preceding 31 August, in schools maintained by the local authority. |
| **DP 19/ PI 19** | Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig | The percentage of final statements of special education needs issued within 26 weeks; |

| **Rhif y Dangosydd/ Indicator Number** | **Dangosydd** | **Indicator** |
|---|---|---|
| | a ddyroddir ymhen 26 o wythnosau;<br>(a) gan gynnwys eithriadau; a<br>(b) heb gynnwys eithriadau. | (a) including exceptions; and<br>(b) excluding exceptions. |